**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**Dyddiad y Cyfarfod: Awst 1af, 2024**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Diane King (Cyngor Sir Ddinbych Cynghorydd), Julie Fallon – Cadeirydd (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint), Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam) a Beca Brown (Cyngor Gwynedd)**.**

**Swyddogion Heb Bleidlais:** Rhys Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Karen Evans (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Clare Scanlon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych)

**Swyddogion yr Awdurdod Lletyol:** Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr – Gwynedd), Dewi Morgan (Swyddog Cyllid Statudol – Gwynedd), Iwan Evans (Swyddog Monitro – Gwynedd, Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau – Gwynedd) a Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwynedd)

**Ymddiheuriadau:** Manon Williams (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Paul Smith (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy), Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint) a Gwern ap Rhisiart (Cyngor Gwynedd)

**TAFLEN BENDERFYNIAD CYDBWYLLGOR GWE**

**Adran 100C Deddf Llywodraeth Leol 1972 ( fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020)**

**Dyddiad y Cyfarfod: Awst 1af, 2024**

---

**PWNC: Eitem 5: Ail-strwythuro Arfaethedig o Uwch Dim Rheoli GwE**

---

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyo'r cynnig ailstrwythuro arfaethedig o Uwch Dîm Rheoli GwE, yn unol â'r argymhellion,**

1. **Yng ngwyneb gweithredu proses dirwyn GwE i ben fod y strwythur rheoli interim diwygiedig ar gyfer y cyfnod 1 Medi i 31 Mawrth wedi ei gymeradwyo a fod y trefniadau ar gyfer gwireddu hyn yn cael eu gweithredu yn unol a'r adroddiad .**
2. **Bod Bwrdd Trosglwyddo yn cael ei sefydlu i sicrhau trosglwyddiad effeithiol o fodel GwE i'r strwythur partneriaeth newydd.**
3. **Bod Rheolwr Prosiect yn cael ei benodi i gynorthwyo'r Bwrdd Trosglwyddo gyda'i waith.**
4. **Bod Prif Weithredwr yr Awdurdod Lletya, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151, yn cael ei awdurdodi i wneud y penderfyniadau angenrheidiol i hwyluso gweithrediad y penderfyniad hwn.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Bod angen i Aelodau'r Cydbwyllgor gymeradwyo cynnig ailstrwythuro arfaethedig o Uwch Dîm Rheoli GwE, o ystyried bod y consortiwm yn dirwyn i ben 31 Mawrth, 2025.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y CYDBWYLLGOR**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol, y chwe Pennaeth Addysg yn Awdurdodau Lleol y rhanbarth, ynghyd â'r chwe Prif Weithredwr am eu barn, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

---